**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2005 Rhif 2839 (Cy.203)

# CYNLLUNIO GWLAD A THREF, CYMRU

## Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) 2005

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau.)*

Mae Rhan 6 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 ("y Ddeddf") yn sefydlu system newydd o gynlluniau datblygu lleol ("CDLl") yng Nghymru. Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ar gyfer gweithredu'r system honno.

Mae'r Rheoliadau yn rhagnodi ffurf a chynnwys CDLl (sydd i'w paratoi gan yr awdurdodau cynllunio lleol ("ACLl")) (Rhan 3 o'r Rheoliadau hyn) ac yn gwneud darpariaeth ar gyfer y weithdrefn sydd i'w dilyn wrth eu paratoi (Rhan 4 o'r Rheoliadau hyn).

Y prif gamau yn y weithdrefn o wneud CDLl yw-

(a) y cytundeb cyflawni sy'n cynnwys y cynllun cynnwys cymunedau a'r amserlen ar gyfer paratoi CDLl (Rhan 2 o'r Rheoliadau hyn);

(b) cyfranogi cyn adneuo (rheoliad 14);

(c) ymgynghori â'r cyhoedd cyn adneuo (rheoliad 15);

(ch) cyflwyno sylwadau a'u hystyried (rheoliad 16);

(d) adneuo'r cynigion (rheoliad 17);

(dd) cyflwyno ac ystyried sylwadau ar y cynigion (rheoliadau 18 i 20);

(e) sylwadau am sylwadau ar ddyraniad safle (rheoliad 21);

(f) cyflwyno CDLl sydd wedi'i adneuo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad Cenedlaethol") ei archwilio (rheoliadau 22 a 23);

**NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES**

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2005 No. 2839 (W.203)

# TOWN AND COUNTRY PLANNING, WALES

## The Town and Country Planning (Local Development Plan) (Wales) Regulations 2005

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

Part 6 of the Planning and Compulsory Purchase Act 2004 ("the Act") establishes a new system of local development plans ("LDPs") in Wales. These Regulations make provision for the operation of that system.

The Regulations prescribe the form and content of LDPs (to be prepared by local planning authorities ("LPAs")) (Part 3 of these Regulations) and make provision for the procedure to be followed in their preparation (Part 4 of these Regulations).

The main steps in the LDP making procedure are-

(a) the delivery agreement consisting of the community involvement scheme and the timetable for preparation of the LDP (Part 2 of these Regulations);

(b) pre-deposit participation (regulation 14);

(c) pre-deposit public consultation (regulation 15);

(d) making and consideration of representations (regulation 16);

(e) deposit of proposals (regulation 17);

(f) making and consideration of representations on proposals (regulations 18 to 20);

(g) representations on site allocation representations (regulation 21);

(h) submission of deposit LDP for examination to the National Assembly for Wales ("the National Assembly") (regulations 22 and 23);

(ff) cyhoeddi argymhellion y person a benodwyd i gyflawni'r archwiliad (rheoliad 24); ac

(g) mabwysiadu'r CDLl gan yr ACLl (rheoliad25).

Mae darpariaethau hefyd ynglŷn â sut y dylid ymdrin â gwahanol ffurfiau o sylwadau ar CDLl (rheoliadau 19 ac 20), ynghylch tynnu CDLl yn ôl (rheoliad 26) ac ynglŷn ag ymyriad y Cynulliad Cenedlaethol yn y broses o baratoi CDLl (gan gynnwys darpariaethau ynghylch CDLl y mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi cyfarwyddo bod rhaid eu cyflwyno iddo ef eu pwyso a'u mesur) (Rhan 5 o'r Rheoliadau hyn).

Mae'r Rheoliadau yn gwneud darpariaeth ar gyfer paratoi Cydgynlluniau Datblygu Lleol (rheoliad 36), yn ei gwneud yn ofynnol i ADLl adolygu ei CDLl bob pedair blynedd (Rhan 9), yn caniatáu cyfathrebiadau electronig (rheoliad 4) ac yn gwneud darpariaeth ynglŷn ag argaeledd dogfennau (Rhan 8).

(i) publication of the recommendations of the person appointed to carry out the examination (regulation 24); and

(j) adoption of the LDP by the LPA (regulation 25).

There are also provisions about how different forms of representation on an LDP are to be handled (regulations 19 and 20), about the withdrawal of an LDP (regulation 26) and the intervention of the National Assembly in the LDP preparation process (including provisions about LDPs which the National Assembly has directed must be submitted for its consideration) (Part 5 of these Regulations).

The Regulations make provision for the preparation of joint LDPs (regulation 36), require an LPA to review its LDP every four years (Part 9), permits electronic communications (regulation 4) and make provision in relation to the availability of documents (Part 8).

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2005 Rhif 2839 (Cy.203)

# CYNLLUNIO GWLAD A THREF, CYMRU

## Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) 2005

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | *11 Hydref 2005* |
| *Yn dod i rym* | *15 Hydref 2005* |

**TREFN Y RHEOLIADAU**


RHAN 1

CYFFREDINOL

**1**. Enwi, cychwyn a chymhwyso

**2**. Dehongli

**3**. Cwmpas y Rheoliadau

**4**. Cyfathrebiadau electronig

RHAN 2

MATERION RHAGARWEINIOL

**5**. Paratoi cynllun cynnwys cymunedau

**6**. Cynnwys cynllun cynnwys cymunedau

**7**. Paratoi amserlen

**8**. Cynnwys yr amserlen

**9**. Cytundebau cyflawni

**10**. Argaeledd Cytundebau Cyflawni


STATUTORY INSTRUMENTS

# 2005 No. 2839 (W.203)

# TOWN AND COUNTRY PLANNING, WALES

## The Town and Country Planning (Local Development Plan) (Wales) Regulations 2005

| | |
|---|---|
| *Made* | *11 October 2005* |
| *Coming into force* | *15 October 2005* |

**ARRANGEMENT OF REGULATIONS**


PART 1

GENERAL

**1**. Title, commencement and application

**2**. Interpretation

**3**. Scope of Regulations

**4**. Electronic communications

PART 2

PRELIMINARY

**5**. Community involvement scheme preparation

**6**. Content of community involvement scheme

**7**. Timetable preparation

**8**. Content of Timetable

**9**. Delivery Agreements

**10**. Availability of Delivery Agreements

## RHAN 3

## FFURF A CHYNNWYS CYNLLUN DATBLYGU LLEOL


**11**. Ffurf a chynnwys cynllun datblygu lleol: cyffredinol

**12**. Map o'r Cynigion

**13**. Cynllun datblygu lleol: materion ychwanegol y dylid rhoi sylw iddynt


## RHAN 4

## Y WEITHDREFN AR GYFER CYNLLUN DATBLYGU LLEOL


**14**. Cyfranogi cyn adneuo

**15**. Ymgynghori â'r cyhoedd cyn adneuo

**16**. Sylwadau Ymgynghoriad â'r Cyhoedd

**17**. Adneuo cynigion

**18**. Sylwadau ar gynigion adneuo cynllun datblygu lleol

**19**. Ymdrin â sylwadau: cyffredinol

**20**. Ymdrin â sylwadau: sylwadau ar ddyraniad safle

**21**. Sylwadau am sylw ar ddyraniad safle

**22**. Cyflwyno cynllun datblygu lleol i'r Cynulliad Cenedlaethol

**23**. Archwiliad annibynnol

**24**. Cyhoeddi argymhellion y person a benodwyd

**25**. Mabwysiadu cynllun datblygu lleol

**26**. Tynnu cynllun datblygu lleol yn ôl


## RHAN 5

## YMYRIAD GAN Y CYNULLIAD CENEDLAETHOL


**27**. Dogfennau i'w darparu i'r Cynulliad Cenedlaethol

**28**. Cyfarwyddyd i beidio â mabwysiadu cynllun datblygu lleol

**29**. Cyfarwyddyd i addasu cynllun datblygu lleol

**30**. Cyfarwyddiadau Adran 65(4) (galw i mewn)

**31**. Newidiadau a gynigir gan y Cynulliad Cenedlaethol i gynllun datblygu lleol (galw i mewn)

**32**. Sylwadau ar newidiadau arfaethedig (galw i mewn)


## PART 3

## FORM AND CONTENT OF LOCAL DEVELOPMENT PLAN


**11**. Form and content of a local development plan: general

**12**. Proposals Map

**13**. Local development plan: additional matters to which regard to be had


## PART 4

## LOCAL DEVELOPMENT PLAN PROCEDURE


**14**. Pre-deposit participation

**15**. Pre-deposit public consultation

**16**. Public Consultation Representations

**17**. Deposit of proposals

**18**. Representations on deposit proposals of a local development plan

**19**. Handling of representations: general

**20**. Handling of representations: site allocation representations

**21**. Representations on a site allocation representation

**22**. Submission of local development plan to the National Assembly

**23**. Independent examination

**24**. Publication of the recommendations of the person appointed

**25**. Adoption of a local development plan

**26**. Withdrawal of a local development plan


## PART 5

## INTERVENTION BY THE NATIONAL ASSEMBLY


**27**. Documents to be supplied to the National Assembly

**28**. Direction not to adopt a local development plan

**29**. Direction to modify a local development plan

**30**. Section 65(4) directions (call-in): supplementary

**31**. Changes proposed by the National Assembly to a local development plan (call-in)

**32**. Representations on proposed changes (call-in)

33. Cyhoeddi argymhellion y person a benodwyd i gyflawni'r archwiliad annibynnol (galw i mewn)
34. Penderfyniad y Cynulliad Cenedlaethol ar ôl cyfarwyddyd adran 65(4) (galw i mewn)
35. Pŵer diofyn y Cynulliad Cenedlaethol

RHAN 6

CYDGYNLLUN DATBLYGU LLEOL

36. Cydgynllun datblygu lleol: cynlluniau cyfatebol

RHAN 7

YR ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL

37. Yr adroddiad monitro blynyddol

RHAN 8

ARGAELEDD DOGFENNAU

38. Argaeledd dogfennau at ddiben eu harchwilio
39. Argaeledd cynllun datblygu lleol a fabwysiadwyd neu a gymeradwywyd
40. Copïau o ddogfennau

RHAN 9

ADOLYGU CYNLLUN DATBLYGU LLEOL

41. Adolygu Cynllun Datblygu Lleol

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad Cenedlaethol"), drwy arfer y pŵerau a roddwyd iddo gan adrannau 62(4) a (5)(g), 63(3)(a), 63(7), 64(3), 69, 72(7), 76(2) a (3) a 77 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 ("y Ddeddf")(**1**) a pharagraff 5(2) o Atodlen 4A i Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(**2**) a phob pŵer arall sy'n ei alluogi yn y cyswllt hwnnw, drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

(**1**) 2004 p.5. O ran pwerau i ragnodi, *gweler* adran 122(1).

(**2**) 1990 p.8. Mewnosodwyd Atodlen 4A gan Atodlen 1 i Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004.

33. Publication of the recommendations of the person appointed to carry out the independent examination (call-in)
34. The National Assembly's decision after section 65(4) direction (call-in)
35. The National Assembly's default power

PART 6

JOINT LOCAL DEVELOPMENT PLAN

36. Joint local development plan: corresponding plans

PART 7

ANNUAL MONITORING REPORT

37. Annual monitoring report

PART 8

AVAILABILITY OF DOCUMENTS

38. Availability of plan: general
39. Availability of adopted or approved local development plan
40. Copies of documents

PART 9

REVIEW OF LOCAL DEVELOPMENT PLAN

41. Review of Local Development Plan

The National Assembly of Wales ("the National Assembly"), in exercise of the powers conferred upon it by sections 62(4) and (5)(g), 63(3)(a), 63(7), 64(3), 69, 72(7), 76(2) and (3) and 77 of the Planning and Compulsory Purchase Act 2004 ("the Act")(**1**) and paragraph 5(2) of Schedule 4A to the Town and Country Planning Act 1990(**2**) and of all other powers enabling it in that behalf, hereby makes the following Regulations:

(**1**) 2004 c.5. As to powers to prescribe, *see* section 122(1).

(**2**) 1990 c.8. Schedule 4A was inserted by Schedule 1 to the Planning and Compulsory Purchase Act 2004.

## RHAN 1

## CYFFREDINOL

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1**.-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 a deuant i rym ar 15 Hydref 2005.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

**Dehongli**

**2**.-(1) Yn y Rheoliadau hyn-

ystyr "ACLl" ("*LPA*") yw'r awdurdod cynllunio lleol;

ystyr "adroddiad arfarnu cynaliadwyedd" ("*sustainability appraisal report*") yw'r adroddiad a baratowyd yn unol ag adran 62(6)(b); ac mae'n cynnwys unrhyw adroddiad amgylcheddol sy'n ofynnol o dan ddarpariaethau Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004(**1**) neu unrhyw ailddeddfiad ohonynt;

ystyr "adroddiad ymgynghori cychwynnol" ("*initial consultation report*") yw adroddiad yr ACLl a baratowyd yn unol â rheoliadau 14 i 16;

ystyr "arolygu" ("*inspection*") yw arolygu gan y cyhoedd;

ystyr "awdurdod perthnasol" ("*relevant authority*") yw-

(a) CDLl;

(b) cyngor cymuned;

ystyr "CDLl" ("*LDP*") yw cynllun datblygu lleol;

mae i "cod cyfathrebu electronig" yr un ystyr ag "*electronic communications code*" yn adran 106(1) o Ddeddf Cyfathrebu 2003(**2**);

mae i "cyfathrebiad electronig" yr ystyr a roddir i "*electronic communication*" gan adran 15(1) o Ddeddf Cyfathrebu Electronig 2000(**3**);

ystyr "cyfeiriad" ("*address*"), o ran cyfathrebiadau electronig, yw unrhyw rif neu gyfeiriad a ddefnyddir at ddibenion cyfathrebiadau o'r fath;

ystyr "Cynulliad Cenedlaethol" ("*National Assembly*") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

ystyr "cyrff ymgynghori cyffredinol" ("*general consultation bodies*") yw-

(**1**) O.S. 2004/1656.

(**2**) 2003 p.21.

(**3**) 2000 p.7

## PART 1

## GENERAL

**Title, commencement and application**

**1**.-(1) These Regulations may be called the Town and Country Planning (Local Development Plan) (Wales) Regulations 2005 and come into force on 15 October 2005.

(2) These Regulations apply in relation to Wales.

**Interpretation**

**2**.-(1) In these Regulations-

"address", ("*cyfeiriad*") in relation to electronic communications, means any number or address used for the purposes of such communications;

"adoption statement" ("*datganiad mabwysiadu*") means a statement-

(a) of the date on which an LDP is adopted;

(b) that a person aggrieved by the LDP may make an application to the High Court under section 113; and

(c) of the grounds on, and the time within which such an application may be made;

"by local advertisement" ("*drwy hysbyseb leol*") means by publication on at least one occasion in a local newspaper circulating in the whole of the area of the LPA;

"decision statement" ("*datganiad penderfynu*") means-

(a) a statement that the National Assembly has decided to approve, approve subject to modifications, or reject an LDP (as the case may be);

(b) where the National Assembly decides to approve an LDP, or to approve an LDP subject to modifications, a statement-

   (i) of the date on which the LDP is adopted,

   (ii) that a person aggrieved by the LDP may make an application to the High Court under section 113, and

   (iii) of the grounds on, and the time within which such an application may be made;

"delivery agreement" ("*cytundeb cyflawni*") means the agreed community involvement scheme together with the agreed timetable referred to in section 63(1);

"deposit matters" ("*materion adneuo*") means-

(a) cyrff gwirfoddol, y mae gweithgareddau'r rhai neu'r cyfan ohonynt yn fuddiol i unrhyw ran o ardal yr ACLl;

(b) cyrff sy'n cynrychioli buddiannau gwahanol grwpiau hiliol, ethnig neu genedlaethol yn ardal yr ACLl;

(c) cyrff sy'n cynrychioli buddiannau gwahanol grwpiau crefyddol yn ardal yr ACLl;

(ch) cyrff sy'n cynrychioli buddiannau personau anabl yn ardal yr ACLl;

(d) cyrff sy'n cynrychioli buddiannau personau sy'n rhedeg busnes yn ardal yr ACLl; ac

(dd) cyrff sy'n cynrychioli buddiannau'r diwylliant Cymreig yn ardal yr ACLl;

ystyr "cyrff ymgynghori penodol" ("*specific consultation bodies*") yw'r cyrff a bennir neu a ddisgrifir ym mharagraffau (i) i (viii) o'r diffiniad hwn:

(a) Cyngor Cefn Gwlad Cymru(**1**),

(b) Asiantaeth yr Amgylchedd(**2**),

(c) i'r graddau y mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn arfer swyddogaethau a oedd yn arferadwy gynt gan yr Awdurdod Rheilffordd Strategol, yr Ysgrifennydd Gwladol.

(ch) y Cynulliad Cenedlaethol,

(d) awdurdod perthnasol y mae unrhyw ran o'i ardal yn ardal yr ACLl neu'n cyffinio â'r ardal honno,

(dd) unrhyw berson-

(i) y mae'r cod cyfathrebu electronig yn gymwys iddo yn rhinwedd cyfarwyddyd a roddir o dan adran 106(3)(a) o Ddeddf Cyfathrebu 2003, a

(ii) sy'n meddu ar offer cyfathrebu electronig sydd wedi'u lleoli mewn unrhyw ran o ardal yr ACLl neu'n rheoli offer o'r fath (lle mae'n wybyddus),

(e) os yw'n arfer swyddogaethau mewn unrhyw ran o ardal yr ACLl-

(i) Bwrdd Iechyd Lleol(**3**),

(ii) person y mae trwydded wedi'i rhoi iddo o dan adran 6(1)(b) neu (c) o Ddeddf Trydan 1989(**4**),

(a) the title of the LDP;

(b) the period within which representations about the LDP must be made in accordance with regulation 16(2)(a);

(c) the address to which and, where appropriate, the person to whom representations (whether made by way of electronic communications or otherwise) must be sent in accordance with regulation 18;

(d) a statement that representations may be accompanied by a request to be notified at a specified address of the publication of the recommendations of the person appointed to carry out an examination under section 64 or the adoption of the LDP or both;

"disabled person" ("*person anabl*") has the meaning given by section 1(2) of the Disability Discrimination Act 1995(**1**);

"electronic communication" ("*cyfathrebiad electronig*") has the meaning given by section 15(1) of the Electronic Communications Act 2000(**2**);

"electronic communications apparatus" ("*offer cyfathrebu electronig*") has the meaning given by paragraph 1(1) of the electronic communications code(**3**);

"electronic communications code" ("*cod cyfathrebu electronig*") has the same meaning as in section 106(1) of the Communications Act 2003(**4**);

"general consultation bodies" ("*cyrff ymgynghori cyffredinol*") means-

(a) voluntary bodies, some or all of whose activities benefit any part of the LPA's area;

(b) bodies which represent the interests of different racial, ethnic or national groups in the LPA's area;

(c) bodies which represent the interests of different religious groups in the LPA's area;

(d) bodies which represent the interests of disabled persons in the LPA's area;

(e) bodies which represent the interests of persons carrying on business in the LPA's area; and

(f) bodies which represent the interests of Welsh

(**1**) *Gweler* adran 1(1) o Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949 (p.97), fel y'i hamnewidiwyd gan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 (p.43), adran 130 ac Atodlen 8, paragraff 1 ac fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1999/416.

(**2**) *Gweler* adran 1(1) o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 (p.25).

(**3**) *Gweler* adran 16BA o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 (p.49).

(**4**) 1989 (p.29); amnewidiwyd adran 6 gan Ddeddf Cyfleustodau 2000 (p.27), adran 30.

(**1**) 1995 c.50.

(**2**) 2000 c.7.

(**3**) The definition of "electronic communications apparatus" has been inserted into paragraph 1(1) of the electronic communications code by paragraph 2(2) of Schedule 3 to the Communications Act 2003 (c.21).

(**4**) 2003 c.21.

(iii) person y mae trwydded wedi'i rhoi iddo o dan adran 7(2) o Ddeddf Nwy 1986(**1**),

(iv) ymgymerwr carthffosiaeth,

(v) ymgymerwr dŵr;

ystyr "cytundeb cyflawni" ("*delivery agreement*") yw'r cynllun cynnwys cymunedau y cytunwyd arno ynghyd â'r amserlen y cytunwyd arni ac y cyfeirir at y ddau ohonynt yn adran 63(1);

ystyr "datganiad mabwysiadu" ("*adoption statement*") yw datganiad-

(a) o ddyddiad mabwysiadu CDLl;

(b) y caiff person a dramgwyddir gan yr CDLl wneud cais i'r Uchel Lys o dan adran 113; ac

(c) o'r seiliau y caniateir eu defnyddio i wneud y cais hwnnw, ac o fewn pa amser y caniateir iddo gael ei wneud;

ystyr "datganiad penderfynu" ("*decision statement*")-

(a) yw datganiad bod y Cynulliad Cenedlaethol wedi penderfynu cymeradwyo, cymeradwyo yn ddarostyngedig i addasiadau, neu wrthod CDLl (yn ôl y digwydd);

(b) pan fo'r Cynulliad Cenedlaethol yn penderfynu cymeradwyo CDLl, neu gymeradwyo CDLl yn ddarostyngedig i addasiadau, yw datganiad-

(i) o ddyddiad mabwysiadu'r CDLl,

(ii) y caiff person a dramgwyddir gan yr CDLl wneud cais i'r Uchel Lys o dan adran 113, a

(iii) o'r seiliau y caniateir eu defnyddio i wneud y cais hwnnw, ac o fewn pa amser y caniateir iddo gael ei wneud;

ystyr "dogfennau CDLl" ("*LDP documents*") yw-

(a) yr CDLl sydd wedi'i adneuo;

(b) yr adroddiad arfarnu cynaliadwyedd;

(c) yr adroddiad ymgynghori cychwynnol;

(ch) y dogfennau ategol sy'n berthnasol ym marn yr ACLl i waith paratoi'r CDLl;

ystyr "dogfennau cynigion cyn-adneuo" ("*pre-deposit proposals documents*") yw'r strategaeth, yr opsiynau a'r cynigion ar gyfer yr CDLl sydd orau gan yr ACLl a goblygiadau'r rhain, a'r dewisiadau cynharach a'u goblygiadau wedi'u hegluro, ynghyd â'r dogfennau ategol sy'n berthnasol i'r dogfennau hynny ym marn yr ACLl;

ystyr "drwy hysbyseb leol" ("*by local advertisement*") yw drwy gyhoeddi o leiaf un tro mewn papur lleol sy'n cylchredeg yn ardal gyfan yr ACLl;

(**1**) 1986 (p.44); amnewidiwyd adran 7 gan Ddeddf Nwy 1995 (p.45) a diwygiwyd adran 7(2) gan Ddeddf Cyfleustodau 2000 (p.27), adrannau 3(2), 76(1) a (3) ac Atodlen 6, paragraffau 1 a 4.

culture in the LPA's area;

"initial consultation report" ("*adroddiad ymgynghori cychwynnol*") means the report of the LPA prepared pursuant to regulations 14 to 16;

"inspection" ("*arolygu*") means inspection by the public;

"LDP" ("*CDLl*") means a local development plan;

"LDP documents" ("*dogfennau CDLl*") means-

(a) the deposit LDP;

(b) the sustainability appraisal report;

(c) the initial consultation report;

(d) such supporting documents as in the opinion of the LPA are relevant to the preparation of the LDP;

"LPA" ("*ACLl*") means the local planning authority;

"National Assembly" ("*Cynulliad Cenedlaethol*") means the National Assembly for Wales;

"Ordnance Survey map" ("*map yr Arolwg Ordnans*") means a map produced by Ordnance Survey or a map on a similar base at a registered scale;

"person appointed" ("*person a benodwyd*") means a person appointed by the National Assembly under section 64(4) to carry out an independent examination;

"pre-deposit proposals documents" ("*dogfennau cynigion cyn-adneuo*") means the LPA's preferred strategy, options and proposals for the LDP and the implications of these, with earlier alternatives and implications made explicit, together with such supporting documents as in the opinion of the LPA are relevant to those documents;

"pre-deposit matters" ("*materion cyn-adneuo*") means-

(a) the title of the LDP;

(b) the period within which representations on the proposals may be made in accordance with regulation 16(2)(a);

(c) the address to which and, where appropriate, the person to whom representations (whether made by way of electronic communications or otherwise) must be sent in accordance with regulation 16(2)(b);

(d) a statement that any representations may be accompanied by a request to be notified at a specified address that the LDP has been submitted to the National Assembly for independent examination under section 64 and

ystyr "map yr Arolwg Ordnans" ("*Ordnance Survey map*") yw map a gynhyrchwyd gan yr Arolwg Ordnans neu fap ar sylfaen debyg yn ôl graddfa gofrestredig;

ystyr "materion adneuo" ("*deposit matters*") yw-

(a) teitl yr CDLl;

(b) y cyfnod y mae rhaid cyflwyno sylwadau ynddo am yr CDLl yn unol â rheoliad 16(2)(a);

(c) y cyfeiriad y mae rhaid anfon sylwadau iddo, a phan fo'n briodol, y person y mae rhaid eu hanfon ato (boed ar ffurf cyfathrebiadau electronig neu fel arall) yn unol â rheoliad 18;

(ch) datganiad y caniateir i ddeisyfiad fynd gyda'r sylwadau, a hwnnw'n ddeisyfiad am gael hysbysiad mewn cyfeiriad penodedig fod argymhellion y person a benodwyd i gyflawni archwiliad o dan adran 64 wedi'u cyhoeddi neu gael hysbysiad bod yr CDLl wedi'i fabwysiadu neu gael hysbysiad o'r ddau;

ystyr "materion cyn-adneuo" ("*pre-deposit matters*") yw-

(a) teitl yr CDLl;

(b) y cyfnod y caniateir i sylwadau gael eu cyflwyno ynddo yn unol â rheoliad 16(2)(a);

(c) y cyfeiriad, a phan fo'n briodol y person, y mae rhaid i sylwadau gael eu hanfon ato (boed ar ffurf cyfathrebiadau electronig neu fel arall) yn unol â rheoliad 16(2)(b);

(ch) datganiad y caniateir i ddeisyfiad fynd gydag unrhyw sylwadau, a hwnnw'n ddeisyfiad yn gofyn am gael hysbysiad mewn cyfeiriad penodedig bod yr CDLl wedi'i gyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer archwiliad annibynnol o dan adran 64 a bod yr CDLl wedi'i fabwysiadu;

mae i "offer cyfathrebu electronig" yr ystyr a roddir i "*electronic communications apparatus*" gan baragraff 1(1) o'r cod cyfathrebu electronig(**1**);

ystyr "person a benodwyd" ("*person appointed*") yw person a benodwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol o dan adran 64(4) i gyflawni archwiliad annibynnol;

(**1**) Mae'r diffiniad o "electronic communications apparatus" wedi'i fewnosod ym mharagraff 1(1) o'r cod cyfathrebu electronig gan baragraff 2(2) o Atodlen 3 i Ddeddf Cyfathrebu 2003 (p.21).

of the adoption of the LDP;

"relevant authority" ("*awdurdod perthnasol*") means-

(a) an LPA;

(b) a community council;

"site allocation policy" ("*polisi dyrannu safle*") means a policy which allocates a site for a particular use or development;

"site allocation representation" ("*sylw ar ddyraniad safle*") means any representation which seeks to change an LDP by-

(a) adding a site allocation policy to the LDP; or

(b) altering or deleting any site allocation policy in the LDP;

"specific consultation bodies" ("*cyrff ymgynghori penodol*") means the bodies specified or described in paragraphs (i) to (viii) of this definition;

(a) the Countryside Council for Wales(**1**),

(b) the Environment Agency(**2**),

(c) insofar as the Secretary of State exercises functions previously exercisable by the Strategic Rail Authority, the Secretary of State,

(d) the National Assembly,

(e) a relevant authority any part of whose area is in or adjoins the area of the LPA,

(f) any person-

(i) to whom the electronic communications code applies by virtue of a direction given under section 106(3)(a) of the Communications Act 2003, and

(ii) who owns or controls electronic communications apparatus situated in any part of the area of the LPA (where known),

(g) if it exercises functions in any part of the LPA's area-

(i) a Local Health Board(**3**),

(ii) a person to whom a licence has been granted under section 6(1)(b) or (c) of the Electricity Act 1989(**4**),

(**1**) *See* section 1(1) of the National Parks and Access to the Countryside Act 1949 (c.97), as substituted by the Environmental Protection Act 1990 (c.43), section 130 and Schedule 8, paragraph 1 and as amended by S.I. 1999/416.

(**2**) *See* section 1(1) of the Environment Act 1995 (c.25).

(**3**) See section 16BA of the National Health Service Act 1977 (c.49).

(**4**) 1989 (c.29); section 6 was substituted by the Utilities Act 2000 (c.27), section 30.

mae i "person anabl" yr ystyr a roddir i "*disabled person*" gan adran 1(2) o Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995(**1**);

ystyr "polisi dyrannu safle" ("*site allocation policy*") yw polisi sy'n golygu dyrannu safle ar gyfer defnydd neu ddatblygiad penodol;

ystyr "sylw ar ddyraniad safle" ("*site allocation representation*") yw unrhyw sylw sy'n ceisio newid CDLl drwy-

(a) ychwanegu polisi dyrannu safle at yr CDLl; neu

(b) newid neu ddileu unrhyw bolisi dyrannu safle yn yr CDLl;

ystyr "Strategaeth Wastraff Cymru" ("*Waste Strategy Wales*") yw unrhyw ddatganiad sy'n cynnwys polisïau'r Cynulliad Cenedlaethol o ran adfer a gwaredu gwastraff yng Nghymru(**2**) ac sy'n cael ei wneud o dan adran 44A o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990(**3**).

(2) Yn y Rheoliadau hyn, oni ddywedir fel arall, mae unrhyw gyfeiriad at adran yn gyfeiriad at yr adran honno o'r Ddeddf ac mae unrhyw gyfeiriad at reoliad yn gyfeiriad at y rheoliad hwnnw yn y Rheoliadau hyn.

**Cwmpas y Rheoliadau**

**3**.-(1) Mae'r Rheoliadau hyn yn effeithiol mewn perthynas â diwygio CDLl yn yr un modd ag y maent yn gymwys i baratoi CDLl.

Pan fo -

(a) ACLl; neu

(b) y Cynulliad Cenedlaethol

o ran paratoi cynllun datblygu lleol, wedi cymryd unrhyw gam mewn perthynas ag unrhyw reoliad a wnaed o dan ddarpariaethau Rhan 6 o'r Ddeddf, mae'r cam hwnnw i'w ystyried yn gam sydd wedi'i gymryd yn unol â'r dyletswyddau sydd wedi'u gosod ar yr awdurdod cynllunio lleol neu'r Cynulliad Cenedlaethol o dan y rheoliad hwnnw, p'un a oedd y cam hwnnw wedi'i gymryd cyn, neu ar ôl y diwrnod a bennwyd i'r rheoliad hwnnw ddod i rym.

**Cyfathrebiadau electronig**

**4**.-(1) Os, yn y Rheoliadau hyn-

(a) y mae'n ofynnol i berson-

(i) anfon dogfen, copi o ddogfen neu unrhyw hysbysiad at berson arall,

(**1**) 1995 p.50.

(**2**) Yn Gall Gyda Gwastraff: Strategaeth Wastraff Genedlaethol Cymru, Mehefin 2002 .

(**3**) 1990 p.43.

(iii) a person to whom a licence has been granted under section 7(2) of the Gas Act 1986(**1**),

(iv) a sewerage undertaker,

(v) a water undertaker;

"sustainability appraisal report" ("*adroddiad arfarnu cynaliadwyedd*") means the report prepared pursuant to section 62(6)(b); and includes any environmental report required under the provisions of the Environmental Assessment of Plans and Programmes (Wales) Regulations 2004(**2**) or any re-enactment thereof;

"Waste Strategy for Wales" ("*Strategaeth Wastraff Cymru*") means any statement which contains the National Assembly's policies in relation to the recovery and disposal of waste in Wales(**3**) and which is made under section 44A of the Environmental Protection Act 1990(**4**).

(2) In these Regulations, unless otherwise stated, any reference to a section is a reference to that section of the Act and any reference to a regulation is a reference to that regulation in these Regulations.

**Scope of Regulations**

**3**.-(1) These Regulations have effect in relation to the revision of an LDP as they apply to the preparation of an LDP.

(2) Where-

(a) an LPA; or

(b) the National Assembly

has, in relation to the preparation of a local development plan, taken any step in relation to any regulation made under the provisions of Part 6 of the Act, that step is to be regarded as having been taken pursuant to the duties imposed on the local planning authority or the National Assembly under that regulation, whether that step was taken before, on or after the day appointed for the coming into force of that regulation.

**Electronic communications**

**4**.-(1) Where, within these Regulations-

(a) a person is required to-

(i) send a document, a copy of a document or any notice to another person,

(**1**) 1986 (c.44); section 7 was substituted by the Gas Act 1995 (c.45) and section 7(2) was amended by the Utilities Act 2000 (c.27), sections 3(2), 76(1) and (3) and Schedule 6, paragraphs 1 and 4.

(**2**) S.I. 2004/1656.

(**3**) Wise about Waste: The National Waste Strategy for Wales, June 2002.

(**4**) 1990 c.43.

(ii) hysbysu person arall o unrhyw fater; a

(b) y mae gan y person arall hwnnw gyfeiriad at ddibenion cyfathrebu electronig;

caniateir anfon neu wneud y ddogfen, y copi, neu'r hysbysiad ar ffurf cyfathrebiad electronig.

(2) Os, yn y Rheoliadau hyn, y caiff person gyflwyno sylwadau ar unrhyw fater neu ddogfen, caniateir i'r sylwadau hynny gael eu cyflwyno-

(a) yn ysgrifenedig; neu

(b) ar ffurf cyfathrebiadau electronig.

(3) Os bydd-

(a) cyfathrebiad electronig yn cael ei ddefnyddio fel a grybwyllwyd ym mharagraffau (1) a (2); a

(b) y cyfathrebiad yn dod i law'r derbynnydd y tu allan i oriau swyddfa arferol y person hwnnw, cymerir ei fod wedi dod i law ar y diwrnod gwaith nesaf; ac, yn y rheoliad hwn, ystyr "diwrnod gwaith" yw diwrnod nad yw'n ddydd Sadwrn, nac yn ddydd Sul, Gŵyl y Banc(**1**) nac yn unrhyw ŵyl gyhoeddus arall.

## RHAN 2

## MATERION RHAGARWEINIOL

**Paratoi Cynllun Cynnwys Cymunedau**

**5**. Y personau a fydd yn ymwneud â pharatoi cynllun cynnwys cymunedau at ddibenion adran 63(3)(a) yw'r cyrff ymgynghori cyffredinol hynny y mae'n ymddangos i'r ACLl fod ganddynt fuddiant mewn materion sy'n ymwneud â'r datblygu yn ardal yr ACLl.

**Cynnwys Cynllun Cynnwys Cymunedau**

**6**. Rhaid i gynllun cynnwys cymunedau gynnwys y materion canlynol-

(a) rhestr o'r holl gyrff ymgynghori cyffredinol a phenodol hynny sydd i'w cynnwys yn y weithdrefn CDLl;

(b) egwyddorion y strategaeth o gyfranogi yn yr CDLl sydd i'w mabwysiadu gan yr ACLl;

(c) y dull a ddefnyddir -

(i) i drefnu y bydd cyfranogi yn digwydd ym mhob rhan o'r weithdrefn CDLl, a

(ii) gan yr ACLl i ymateb i'r broses gyfranogi y cyfeiriwyd ati yn is-baragraff (i);

ac amseriad y cyfranogiad a'r ymatebion hynny.

(**1**) Deddf Bancio a Thrafodion Ariannol 1971 (p.80), adran 1(1) ac atodlen 1, paragraff 1.

(ii) notify another person of any matter; and

(b) that other person has an address for the purposes of electronic communications;

the document, copy, notice or notification may be sent or made by way of electronic communications.

(2) Where, within these Regulations, a person may make representations on any matter or document, those representations may be made-

(a) in writing; or

(b) by way of electronic communications.

(3) Where-

(a) an electronic communication is used as mentioned in paragraphs (1) and (2); and

(b) the communication is received by the recipient outside that person's normal office hours, it will be taken to have been received on the next working day; and, in this regulation, "working day" means a day which is not a Saturday, Sunday, Bank Holiday(**1**) or other public holiday.

## PART 2

## PRELIMINARY

**Community Involvement Scheme Preparation**

**5**. The persons who are to be engaged in the preparation of a community involvement scheme for the purposes of section 63(3)(a) are those general consultation bodies as appear to the LPA as having an interest in matters relating to the development in the LPA's area.

**Content of Community Involvement Scheme**

**6**. A community involvement scheme must include within it the following matters-

(a) a list of all those general and specific consultation bodies to be involved in the LDP procedure;

(b) the principles of the LDP participation strategy to be adopted by the LPA;

(c) the timing of, and the method by which-

(i) participation will occur at each stage of the LDP procedure, and

(ii) the LPA will respond to the participation process referred to in sub-paragraph (i);

(**1**) Banking and Financial Dealings Act 1971 (c.80), section 1(1) and schedule 1, paragraph 1.

(ch) manylion ynghylch sut y bydd yr ACLl yn defnyddio'r ymatebion hynny ym mhob rhan wrth ddatblygu cynnwys ei CDLl.

**Paratoi Amserlen**

**7**. Y personau y mae rhaid ymgynghori â hwy wrth baratoi amserlen at ddibenion adran 63(7)(a) yw'r holl gyrff ymgynghori penodol.

**Cynnwys yr Amserlen**

**8**. Rhaid i'r amserlen gynnwys pob dyddiad allweddol-

(a) a bennir mewn canllawiau a wneir o dan adran 75, ac y mae rhaid iddynt gynnwys-

(i) dyddiad pendant ar gyfer pob rhan o'r weithdrefn CDLl hyd at y rhan adneuo, a

(ii) dyddiadau dangosol hyd at fabwysiadu'r CDLl,

(b) ar gyfer paratoi a chyhoeddi-

(i) yr adroddiad arfarnu cynaliadwyedd, a

(ii) yr adroddiad monitro blynyddol.

**Cytundebau Cyflawni**

**9**.-(1) Rhaid i gytundeb cyflawni gynnwys y cynllun cynnwys cymunedau (a baratowyd yn unol â rheoliad 6) a'r amserlen (a baratowyd yn unol â rheoliad 8) ac, yn ychwanegol, rhaid iddo-

(a) cael ei gymeradwyo drwy benderfyniad yr ACLl cyn iddo gael ei gyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol gytuno arno; a

(b) cael ei gyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol gytuno arno ar neu cyn y dyddiad a bennir mewn canllawiau a wnaed o dan adran 75.

(2) Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol ymateb o fewn pedair wythnos o gael y cytundeb cyflawni, onid yw wedi hysbysu'r ACLl yn ysgrifenedig cyn i'r cyfnod hwnnw ddod i ben, fod arno angen mwy o amser i ystyried y ddogfen.

(3) Os yw'r Cynulliad Cenedlaethol, cyn diwedd y cyfnod a grybwyllwyd ym mharagraff (2), wedi methu ag ymateb i'r ffaith ei fod wedi cael y cytundeb cyflawni, bernir y bydd wedi'i gytuno ar ddiwedd y cyfnod hwnnw.

(4) Hyd nes y bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn cymeradwyo'r cytundeb cyflawni, rhaid i'r ACLl beidio â chymryd unrhyw gamau o dan reoliad 15 i hysbysebu ei gynigion.

(5) Rhaid i'r ACLl adolygu'n rheolaidd y cytundeb cyflawni a rhaid i unrhyw ddiwygiad gydymffurfio â pharagraff (1)(a) cyn y cytunir arno gyda'r Cynulliad Cenedlaethol, a hynny'n ddarostyngedig i baragraff (2) a (3).

(d) details of how the LPA will use those responses at each stage in developing the content of its LDP.

**Timetable Preparation**

**7**. The persons that must be consulted in the preparation of a timetable for the purposes of section 63(7)(a) are all the specific consultation bodies.

**Content of Timetable**

**8**. The timetable must include all key dates-

(a) specified in guidance made under section 75, which must include-

(i) a definitive date for each stage of the LDP procedure up to deposit stage, and

(ii) indicative dates up to adoption of the LDP,

(b) for the preparation and publication of-

(i) the sustainability appraisal report, and

(ii) the annual monitoring report.

**Delivery Agreement**

**9**.-(1) A delivery agreement must consist of the community involvement scheme (prepared in accordance with regulation 6) and the timetable (prepared in accordance with regulation 8) and must, in addition, be-

(a) approved by resolution of the LPA prior to submission to the National Assembly for its agreement; and

(b) submitted to the National Assembly for agreement on or before the date specified by guidance made under section 75.

(2) The National Assembly must respond within four weeks of receipt of the delivery agreement, unless it has, before the expiry of that period, notified the LPA in writing that it requires more time to consider the document.

(3) If before the end of the period mentioned in paragraph (2), the National Assembly has failed to respond to the receipt by it of the delivery agreement, it will be deemed to be agreed at the end of that period.

(4) Until such time as the National Assembly approves the delivery agreement, the LPA must not take any steps under regulation 15 to advertise its proposals.

(5) The LPA must keep the delivery agreement under regular review and any revision must comply with paragraph (1)(a) prior to being agreed with the National Assembly, and subject to paragraph (2) and (3).

**Argaeledd Cytundebau Cyflawni**

**10**.-(1) Pan ddaw cytundeb cyflawni'r effeithiol yn unol â rheoliad 9, rhaid i ACLl-

(a) trefnu bod copi o'r cytundeb ar gael i'w arolygu yn ei brif swyddfa yn ystod oriau arferol swyddfa, a

(b) cyhoeddi'r cytundeb ar ei wefan.

(2) Pan ddaw diwygiad i gytundeb cyflawni yn effeithiol o dan reoliad 9, rhaid trefnu bod yr CDLl, o fewn 2 wythnos o'r amser y daw'n effeithiol, yn ymgorffori'r diwygiad yn y cytundeb a roddwyd ar gael i'w arolygu ac a gyhoeddwyd o dan baragraff (1).

**Availability of a Delivery Agreement**

**10**.-(1) Where a delivery agreement takes effect in accordance with regulation 9, an LPA must-

(a) make a copy of the agreement available for inspection at its principal office during normal office hours, and

(b) publish the agreement on its website.

(2) Where a revision to a delivery agreement takes effect under regulation 9, within 2 weeks of it taking effect, the LDP must incorporate the revision into the agreement made available for inspection and published under paragraph (1).

## RHAN 3

## FFURF A CHYNNWYS CYNLLUN DATBLYGU LLEOL

**Ffurf a chynnwys cynllun datblygu lleol: cyffredinol**

**11**.-(1) Rhaid i CDLl gynnwys-

(a) teitl y mae'n rhaid iddo-

(i) rhoi enw ardal yr ACLl y mae'r CDLl yn cael ei baratoi ar ei chyfer, a

(ii) dangos mai CDLl ydyw; a

(b) is-deitl y mae rhaid iddo ddangos-

(i) dyddiad mabwysiadu'r CDLl, a

(ii) pan fo'n CDLl sydd wrthi'n ymddangos, y rhan o'r broses gyhoeddi y mae wedi'i chyrraedd a dyddiad ei gyhoeddi.

(2) Rhaid i CDLl gynnwys cyfiawnhad rhesymedig o'r polisïau sydd wedi'u cynnwys ynddo.

(3) Rhaid bod modd gwahaniaethu'n rhwydd rhwng y rhannau hynny o CDLl sy'n cynnwys polisïau'r CDLl a'r rhannau hynny sy'n cynnwys y cyfiawnhad rhesymedig sy'n ofynnol o dan baragraff (2).

**Map o'r Cynigion**

**12**.-(1) Rhaid i'r CDLl gynnwys map ("map cynigion") o ardal yr ACLl a rhaid iddo-

(a) dangos y cynigion ar gyfer datblygu a defnyddio'r tir yn ei ardal;

(b) cael ei atgynhyrchu o un o fapiau'r Arolwg Ordnans, neu fod wedi'i seilio ar fap o'r fath; ac

(c) dangos llinellau a rhifau cyfeirnod y Grid Cenedlaethol.

(2) At ddibenion y rheoliad hwn, mae cynnig yn bolisi sy'n benodol i safle.

(3) Caniateir i bolisïau ar gyfer unrhyw ran o ardal yr

## PART 3

## FORM AND CONTENT OF LDP

**Form and content of LDP**

**11**.-(1) An LDP must contain a-

(a) title which must-

(i) give the name of the area of the LPA for which the LDP is prepared, and

(ii) indicate that it is an LDP; and

(b) sub-title which must indicate-

(i) the date of adoption of the LDP, and

(ii) where it is an emerging LDP, the stage and date of its publication.

(2) An LDP must contain a reasoned justification of the policies contained in it.

(3) Those parts of an LDP which comprise the policies of the LDP and those parts which comprise the reasoned justification required by paragraph (2) must be readily distinguishable.

**Proposals Map**

**12**.-(1) The LDP must contain a map ("a proposals map") of the LPA's area and which must-

(a) show the proposals for the development and use of land in its area;

(b) be reproduced from, or based on, an Ordnance Survey map; and

(c) show National Grid lines and reference numbers.

(2) For the purposes of this regulation, a proposal is a site specific policy.

(3) Policies for any part of the LPA's area may be

ACLl gael eu darlunio ar fap ar wahân ar raddfa sy'n fwy nag ar gyfer map cynigion ("map mewnosod").

(4) Pan fo map mewnosod wedi'i gynnwys mewn CDLl, rhaid i'r ardal y mae'r map mewnosod yn ei chwmpasu gael ei dynodi ar y map cynigion a rhaid i'r polisïau ar gyfer yr ardal honno gael eu darlunio ar y map mewnosod hwnnw yn unig.

(5) Rhaid i deitl (ac unrhyw is-deitl) CDLl gael ei nodi ar y map cynigion ac ar unrhyw fap mewnosod a gynhwysir yn yr CDLl, a rhaid i'r map cynigion ac unrhyw fap mewnosod ddangos ar ba raddfa y mae wedi'i baratoi a chynnwys esboniad o unrhyw symbol neu nodiant sy'n cael ei ddefnyddio ar y map.

**Cynllun datblygu lleol : materion ychwanegol y dylid rhoi sylw iddynt**

**13**.-(1) Y materion (yn ychwanegol at y rhai a bennir yn adrannau 39 a 62(5)(a) i (f)) a ragnodir at ddibenion adran 62(5) yw-

(a) unrhyw gynllun trafnidiaeth lleol, y mae ei bolisïau yn effeithio ar unrhyw ran o ardal yr ACLl;

(b) unrhyw bolisïau eraill a baratowyd o dan adran 108(1) a (2) o Ddeddf Trafnidiaeth 2000(**1**) sy'n effeithio ar unrhyw ran o ardal yr ACLl;

(c) amcanion atal damweiniau mawr a chyfyngu ar ganlyniadau damweiniau o'r fath;

(ch) yr angen-

(i) yn y tymor hir, am gadw pellteroedd priodol rhwng sefydliadau a mannau preswyl, adeiladau a mannau a ddefnyddir gan y cyhoedd, llwybrau trafnidiaeth pwysig cyn belled â phosibl, mannau hamdden ac ardaloedd o sensitifrwydd naturiol penodol neu o ddiddordeb penodol, a

(ii) yn achos sefydliadau sy'n bodoli eisoes, am fesurau technegol ychwanegol yn unol ag Erthygl 5 o Gyfarwyddeb y Cyngor 96/82/EC ar reoli peryglon mawr o ddamweiniau sy'n cynnwys sylweddau peryglus(**2**) er mwyn peidio â chynyddu'r risgiau i bobl;

(d) Strategaeth Wastraff Cymru; ac

(dd) unrhyw strategaeth wastraff ranbarthol, y gall fod ei pholisïau'n effeithio ar unrhyw ran o ardal yr ACLl; ac

(e) unrhyw strategaeth dai ranbarthol, y gall fod ei pholisïau'n effeithio ar unrhyw ran o ardal yr ACLl.

(**1**) 2000 p.38.

(**2**) O.J. Rhif L10, 14.1.1997, t.13.

illustrated on a separate map on a scale larger than a proposals map (an "inset map").

(4) Where an inset map is included in an LDP, the area covered by the inset map must be identified on the proposals map and the policies for that area must be illustrated on that inset map only.

(5) The title (and any sub-title) of an LDP must be set out on the proposals map and on any inset map contained in the LDP, and the proposals map and any inset map must show the scale to which it has been prepared and include an explanation of any symbol or notation used in the map.

**LDP : additional matters to which regard to be had**

**13**.-(1) The matters (additional to those specified in sections 39 and 62(5)(a) to (f)) prescribed for the purposes of section 62(5) are-

(a) any local transport plan, the policies of which affect any part of the LPA's area;

(b) any other policies prepared under section 108(1) and (2) of the Transport Act 2000(**1**) which affect any part of the LPA's area;

(c) the objectives of preventing major accidents and limiting the consequences of such accidents;

(d) the need-

(i) in the long term, to maintain appropriate distances between establishments and residential areas, buildings and areas of public use, major transport routes as far as possible, recreational areas and areas of particular natural sensitivity or interest, and

(ii) in the case of existing establishments, for additional technical measures in accordance with Article 5 of Council Directive 96/82/EC on the control of major accident hazards involving dangerous substances(**2**) so as not to increase the risks to people;

(e) the Waste Strategy for Wales;

(f) any regional waste plan, the policies of which affect any part of the LPA's area; and

(g) any local housing strategy, the policies of which affect any part of the LPA's area.

(**1**) 2000 c.38.

(**2**) O.J. No. L10, 14.1.1997, p.13.

(2) Mae i'r ymadroddion sy'n ymddangos ym mharagraff (1) uchod a'r ymadroddion Saesneg cyfatebol sy'n ymddangos yng Nghyfarwyddeb y Cyngor 96/82/EC (fel y'i diwygiwyd gan Gyfarwyddeb y Cyngor 2003/105/EC(**1**)) yr un ystyr ag ystyr yr ymadroddion Saesneg hynny yn y Gyfarwyddeb honno.

(3) Ym mharagraff (1)(a), mae i "cynllun trafnidiaeth lleol" yr un ystyr â "*local transport plan*" yn adran 108(3) o Ddeddf Trafnidiaeth 2000.

RHAN 4

Y WEITHDREFN AR GYFER CYNLLUN DATBLYGU LLEOL

**Cyfranogi cyn adneuo**

**14**. Cyn bod CDLl yn cydymffurfio â rheoliad 15, rhaid iddo gysylltu â'r cyrff canlynol er mwyn llunio strategaethau ac opsiynau amgen-

(a) pob un o'r cyrff ymgynghori penodol i'r graddau y mae'r ACLl yn credu bod pwnc arfaethedig yr CDLl yn effeithio ar y cyrff hynny; a

(b) y cyrff ymgynghori cyffredinol y mae'r ACLl yn barnu eu bod yn briodol.

**Ymgynghori â'r cyhoedd cyn adneuo**

**15**. Cyn bod ACLl yn penderfynu'n derfynol ar gynnwys CDLl sydd wedi'i adneuo yn unol â rheoliad 17, rhaid iddo-

(a) trefnu bod copïau o'r dogfennau cynigion cyn-adneuo a datganiad o'r materion cyn-adneuo ar gael i'w harolygu yn ystod oriau arferol swyddfa-

(i) yn ei brif swyddfa, a

(ii) mewn unrhyw le arall o fewn ei ardal y mae'r ACLl yn barnu ei fod yn briodol;

(b) cyhoeddi ar ei wefan-

(i) y dogfennau cynigion cyn-adneuo,

(ii) y materion cyn-adneuo,

(iii) datganiad o'r ffaith bod y dogfennau cynigion cyn-adneuo ar gael i'w harolygu ac o'r lleoedd lle gellir eu harolygu a'r amserau y gellir eu harolygu;

(c) anfon at y cyrff hynny a nodwyd o dan reoliad 14(a) a (b)-

(i) dogfennau cynigion cyn-adneuo'r ACLl,

(ii) y dogfennau ategol sy'n berthnasol i'r corff y mae'r dogfennau yn cael eu hanfon ato,

(iii) hysbysiad o'r materion cyn-adneuo,

(**1**) O.J. Rhif L345, 31.12.2003, t.0097-0105.

(2) Expressions appearing both in paragraph (1) and in Council Directive 96/82/EC (as amended by Council Directive 2003/105/EC(**1**)) have the same meaning as in that Directive.

(3) In paragraph (1)(a), "local transport plan" has the same meaning as in section 108(3) of the Transport Act 2000.

PART 4

LDP PROCEDURE

**Pre-deposit participation**

**14**. Before an LPA complies with regulation 15, it must, for the purpose of generating alternative strategies and options, engage-

(a) each of the specific consultation bodies to the extent that the LPA thinks that the proposed subject matter of the LDP affects those bodies; and

(b) such of the general consultation bodies as the LPA considers appropriate.

**Pre-deposit public consultation**

**15**. Before an LPA finally determines the content of a deposit LDP in accordance with regulation 17, it must-

(a) make copies of the pre-deposit proposals documents and a statement of the pre-deposit matters available for inspection during normal office hours at-

(i) its principal office, and

(ii) such other places within its area as the LPA considers appropriate;

(b) publish on its website-

(i) the pre-deposit proposals documents,

(ii) the pre-deposit matters,

(iii) a statement of the fact that the pre-deposit proposals documents are available for inspection and the places and times at which they can be inspected;

(c) send to those bodies identified under regulation 14(a) and (b)-

(i) the LPA's pre-deposit proposals documents,

(ii) such supporting documents as are relevant to the body to which the documents are being sent,

(iii) notice of the pre-deposit matters,

(**1**) O.J. No. L345, 31.12.2003, p.0097-0105.

(iv) y datganiad ym mharagraff (b)(iii); ac

(ch) hysbysu drwy hysbyseb leol-

(i) y materion cyn-adneuo,

(ii) y ffaith bod y dogfennau cynigion cyn-adneuo ar gael i'w harolygu, y mannau lle gellir eu harolygu a'r amserau y gellir eu harolygu.

**Sylwadau Ymgynghoriad â'r Cyhoedd**

**16**.-(1) Caiff unrhyw berson gyflwyno sylwadau am ddogfennau cyn-adneuo ACLl.

(2) Rhaid i unrhyw sylwadau o'r fath-

(a) cael eu cyflwyno o fewn cyfnod o 6 wythnos gan ddechrau ar y diwrnod y mae'r ACLl yn cydymffurfio â rheoliad 15(a), (c) ac (ch); a

(b) cael eu hanfon i'r cyfeiriad, a phan fo'n gymwys, at y person a bennir yn unol â rheoliad 15(ch).

(3) Rhaid i ACLl ystyried unrhyw sylwadau a gyflwynir yn unol â pharagraff (2) cyn penderfynu'n derfynol ar gynnwys y cynigion CDLl sydd i'w rhoi ar gael o dan reoliad 17.

**Adneuo Cynigion**

**17**. Rhaid i'r ACLl-

(a) trefnu bod copïau o'r dogfennau CDLl, a datganiad o'r materion CDLl, ar gael i'w harolygu yn ystod oriau arferol swyddfa yn y mannau lle rhoddwyd y dogfennau cynigion cyn-adneuo ar gael o dan reoliad 15(a);

(b) cyhoeddi ar ei wefan-

(i) y dogfennau CDLl,

(ii) y materion adneuo, a

(iii) datganiad o'r ffaith bod y dogfennau CDLl ar gael i'w harolygu ac o'r mannau lle gellir eu harolygu a'r amserau y gellir eu harolygu;

(c) anfon at bob un o'r cyrff a nodwyd yn rheoliad 14(a) a (b), gopïau o'r canlynol-

